Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygu monitro blynyddol ar:

# Bettws Lifehouse

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Mae'n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru adrodd ar b'un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni, a lle nad ydynt yn cael eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol*, Ebrill 2004; a
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
  - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
  - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth ar yr ysgol; a
  - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o'r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2014**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol sydd wedi'i lleoli mewn pentref bach gwledig yng Nghanolbarth Cymru yw Bettws Lifehouse.  Agorwyd yr ysgol yn 2007 ac mae wedi cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i dderbyn hyd at 15 o fechgyn a merched rhwng 9 ac 19 oed.  Mae'n darparu addysg ysgol ddydd i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sy'n cael eu lleoli gan awdurdodau yng Nghymru a Lloegr.

Adeg yr arolygiad hwn, mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cael gofal gan eu hawdurdod lleoli. Mae pob disgybl wedi colli rhan o'u haddysg mewn lleoliadau prif ffrwd ac wedi cael cofnodion presenoldeb gwael.

Mae Bettws Lifehouse yn creu llwybr dysgu unigol ar gyfer pob disgybl sy'n adlewyrchu eu hanghenion unigol, addysgol a phersonol.  Yn 2013, enillodd pob un o'r pump o ymadawyr gymwysterau achrededig.  Symudodd pedwar o'r disgyblion hyn ymlaen i goleg a chynnal y lleoliadau am flwyddyn academaidd lawn.

Nod yr ysgol yw darparu 'amgylchedd meithringar sy'n cynorthwyo pobl ifanc i fwrw ymlaen â'u bywydau, yn y byd ehangach, gyda hyder.  Yn yr amgylchedd hwn, bydd disgyblion yn gallu cyflawni nodau realistig a gadael gyda medrau sy'n gallu cael eu trosglwyddo yn y gwaith a gartref'.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r ysgol:**

- caiff ei harwain yn dda a'i rheoli'n dda. Mae arweinwyr a rheolwyr wedi ymateb yn briodol i argymhellion yr arolygiad monitro blynyddol diwethaf;
- at ei gilydd, mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd. Mae pob un o'r disgyblion yn gwybod eu hamserlenni ac yn symud rhwng sesiynau'n dawel gyda lefelau amrywiol o gymorth gan staff, yn unol ag angen;
- mae gan bob disgybl ddyddiadur gwaith defnyddiol sy'n cynnwys ei amserlen, ei gynllun addysg unigol a'i dargedau presennol. Mae staff yn cofnodi perfformiad academaidd ac ymddygiad disgyblion ar gyfer pob gwers yn y dyddiadur ac yn casglu'r wybodaeth yn effeithiol i ddarparu siart cyffredinol o berfformiad pob disgybl ar gyfer yr wythnos. Mae'r cofnodion hyn yn rhoi darlun clir i ddisgyblion o'u cynnydd eu hunain;
- mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn asesu a monitro'u cynnydd yn dda. Dengys data o brofion safonedig fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud gwelliant sylweddol o ran datblygu eu medrau darllen, sillafu a mathemateg;
- mae gan bron pob un o'r disgyblion hanes o bresenoldeb gwael yn eu lleoliadau blaenorol ond mae eu presenoldeb yn Bettws Lifehouse yn gwella dros gyfnod ac mae'n dda ar y cyfan. Mae disgyblion yn cyrraedd yn brydlon ac yn ymdawelu'n gyflym;
- mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio'n dda i fodloni anghenion dysgu disgyblion. Mae'n cynnwys gweithgareddau ymarferol fel coginio, garddio, marchogaeth a rheoli stablau, sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda;
- llwyddodd yr holl ymadawyr yn 2013 i ennill cymwysterau achrededig. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion ennill cymwysterau mewn cyrsiau achrededig, er enghraifft TGAU, lefel Mynediad, BTEC a Gwobr Dug Caeredin, ac mewn ystod o bynciau galwedigaethol;
- mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu gofalgar a chefnogol lle gan staff a disgyblion berthynas waith dda. Mae staff yn darparu'n dda iawn ar gyfer anghenion disgyblion unigol. Defnyddiant ganmoliaeth ac anogaeth yn effeithiol i gymell disgyblion a meithrin hunan-barch yn eu plith;
- ceir adnoddau priodol i gefnogi'r cwricwlwm, sy'n cynnwys ystod eang o lyfrau ffuglen a ffeithiol o ansawdd da;
- mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o gyfleusterau yn y gymuned leol. Mae'r rhain yn cynnwys coetir lleol, busnes cynnal beiciau a fferm ar gyfer astudiaethau ceffylau. Mae gan yr ysgol gysylltiadau defnyddiol â'r coleg lleol lle caiff disgyblion hŷn fynychu cyrsiau rhan-amser. Caiff disgyblion gyfleoedd da i gael profiad gwaith, er enghraifft ar y fferm, mewn meithrinfa a siop adrannol; ac
- fe geir cysylltiadau da â'r gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru a Lloegr i gefnogi disgyblion i symud ymlaen.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- ceir cynllunio trylwyr ar gyfer medrau allweddol mewn Saesneg a mathemateg ond mae cynllunio athrawon ar gyfer medrau allweddol mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm yn llai cyson;
- mae amseroedd cyrraedd disgyblion yn amrywio oherwydd trefniadau cludiant. Ar gyfer y sesiwn gyntaf, maent yn llenwi taflenni gwaith ymarfer mewn Saesneg a mathemateg nes bod pawb wedi cyrraedd. Fodd bynnag, er bod yr amser hwn yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol, ni chaiff y gwaith ei farcio bob amser, felly mae cyfleoedd i nodi pwyntiau addysgu'n cael eu colli;
- mae'r ysgol yn cynnal cofnodion clir a manwl o achosion difrifol a'r defnydd o ymyrraeth gorfforol. Fodd bynnag, weithiau, ceir oedi o ran cofnodi manylion yn y llyfr rhwymedig. Nid yw'r cofnodion fel arfer yn cynnwys llofnod tyst, nac adroddiadau am y digwyddiad gan y disgybl na thyst; ac
- mae'r ysgol wedi'i chofrestru ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol ac anawsterau dysgu cymedrol. Mae disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig, gan gynnwys Syndrom Asperger, ar y gofrestr ar hyn o bryd.

## Argymhellion

A1 Gwneud yn siŵr bod gwaith disgyblion yn gynnar yn y bore yn cael ei farcio a'i olrhain i sicrhau eu bod yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella

A2 Cryfhau'r ffordd y caiff achosion difrifol eu cofnodi

A3 Gwneud cais i Lywodraeth Cymru ymestyn cymeradwyaeth gofrestru'r ysgol o dan A347, i gynnwys disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1:** Parhau i sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn drylwyr ac yn effeithio ar gynllunio ar gyfer datblygu'r ysgol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen drylwyr ac arfarnol. Mae'n nodi cryfderau ac yn amlygu meysydd i'w gwella. Mae'r broses yn drylwyr ac yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau gwersi. Wedyn, caiff y rhain eu blaenoriaethu yng nghynllun datblygu'r ysgol (CDY). Mae'r CDY yn nodi targedau clir ac yn nodi strategaethau i sicrhau'r gwelliant o fewn graddfeydd amser priodol. Mae'r cynllun yn nodi meini prawf llwyddiant a staff i arwain ar bob maes i'w ddatblygu.

**Argymhelliad 2:** Parhau i sicrhau bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ennill cymwysterau mewn cyrsiau achrededig, sy'n briodol i'w hanghenion dysgu

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Caiff disgyblion gyfleoedd da i ennill cymwysterau mewn ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol achrededig yn unol â'u gallu. Yn 2013, roedd y rhain yn cynnwys cyrsiau TGAU a/neu lefel Mynediad mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, celf a dylunio, astudiaethau crefyddol, hanes a Sbaeneg. Fe wnaeth yr ysgol alluogi disgyblion i ennill cymwysterau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), chwaraeon, medrau allweddol, astudiaethau ceffylau, cymorth cyntaf, hylendid bwyd a Gwobr Dug Caeredin.

**Argymhelliad 3:** Sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan yn llawn mewn adolygu eu CAUau yn ffurfiol yn fwy rheolaidd a bod adolygiadau'n cael eu cofnodi'n effeithiol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Caiff copïau o gynlluniau addysg unigol (CAUau) a'u targedau presennol eu cynnwys yn nyddiaduron unigol disgyblion. Dogfennau gweithio yw'r rhain ac mae disgyblion yn cyfeirio atynt trwy gydol y dydd. Caiff disgyblion eu cynnwys yn llawn mewn adolygu eu cynnydd eu hunain bob dydd, bob wythnos ac yn y tymor hir. Mae disgyblion yn defnyddio dyddiaduron trwy gydol y dydd i adolygu eu hamserlenni, eu targedau a sylwadau staff. Maent yn gyfrwng effeithiol iawn.

**Argymhelliad 4:** Ystyried tynhau strwythur y cyfarfod ar ddiwedd y dydd a rhoi cyfle i ddisgyblion fyfyrio ar eu cynnydd dyddiol

Nid yw'r argymhelliad hwn yn berthnasol mwyach.

Mae'r ysgol wedi newid ei harfer ddyddiol ac nid yw'n cynnal cyfarfod ar ddiwedd y dydd sy'n cynnwys yr holl ddisgyblion mewn sesiwn lawn mwyach. Yn hytrach, mae

pob disgybl yn trafod y diwrnod yn unigol gyda mentor dysgu ac fe gaiff gyfle priodol i fyfyrio ar ei gynnydd.  Felly, nid yw’r argymhelliad hwn yn berthnasol mwyach.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1:  Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2:  Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3:  Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4:  Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5:  Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6:  Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7:  Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Bettws Lifehouse |
| **Rhif yr ysgol** | 666/6048 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 19 a 20 Mai 2014 |
| **Perchennog** | Cwmni cyfyngedig gyda 3 chyfarwyddwr |
| **Staff** | 1 athro/perchennog amser llawn sydd â statws athro cymwys ac 8 o athrawon rhan-amser sydd â statws athro cymwys;<br>1 athro/perchennog amser llawn heb gymhwyso; a<br>10 aelod o staff heb gymhwyso sy'n darparu addysgu a/neu gymorth mewn ystod o bynciau. |
| **Nifer y disgyblion** | 14 o fechgyn a merched (gan gynnwys 1 myfyriwr ôl-16 a 2 ddisgybl rhan-amser) |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd o 9.00 – 3.30 yn ystod amseroedd tymor ysgol ALl Powys. |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Cymeradwywyd o dan A347 Deddf Addysg 1996 ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ar gyfer anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (AECY) a'r rhai sydd ag anawsterau dysgu cymedrol (ADC) |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Mai 2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Mai 2013 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Ddim yn berthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Rosemary Lait |
| **Arolygydd Tîm** | Anthony Mulcahy |